## Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (118)

## Pleidleisiau A Thrafodion Dydd Mawrth, 9 Chwefror 2005

### Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm

**Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**
Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 6 yn ôl

**.......................................**

**2.33pm**

**Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol**
Gofynnwyd y 11 cwestiwn cyntaf.

**.......................................**

**3.08pm**

**Dadl ar ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Grw^p Gorchwyl ar Dlodi Plant**

**NDM2290 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Grwp Gorchwyl Tlodi Plant.

2. Yn cydnabod bod angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddefnyddio'i phwerau a'i chyfrifoldebau i'r eithaf o ran lleihau tlodi plant yng Nghymru.

3. Yn cydnabod y meysydd a nodir yn yr adroddiad y mae angen gweithredu arnynt, o ran Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU yn San Steffan.

*Cafodd copïau o "Dyfodol Teg i'n Plant: Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Mynd i'r Afael â Thlodi Plant" eu dosbarthu i Aelodau'r Cynulliad ar 2 Chwefror 2005 a gellir gweld copi o Adroddiad y Grwp Gorchwyl Tlodi Plant drwy glicio ar y cyswllt isod*

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 2, dileu: "Yn cydnabod bod angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru"

a rhoi yn ei le: "Yn nodi gyda siom enw drwg Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth"

**2. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y bydd ymestyn pwerau'r Comisiynydd Plant i bob maes polisi yn cynorthwyo Cynulliad Cenedlaethol Cymru i fynd i'r afael â thlodi plant.

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn credu ei bod yn annerbyniol bod traean o blant Cymru yn byw mewn tlodi er gwaetha'r ffaith mai economi'r DU yw'r mwyaf ond tri yn y byd."

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn credu bod Llafur Newydd wedi hen anghofio am yr egwyddor sosialaidd o ailddosbarthu cyfoeth."

**5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd:

Yn galw ar Lywodraeth Llafur y Cynulliad i ddatblygu darpariaeth gofal plant ledled Cymru sy'n fforddiadwy, yn hygyrch ac yn hyblyg.

**6. David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn canmol Llywodraeth Cynulliad Cymru am seilio'i strategaeth ar egwyddorion craidd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

**7. David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylid adolygu adrannau 4.23 i 4.30 o'r Adroddiad, yn dilyn dyfarniad y Comisiynydd Plant fod yr arian a roddir, hyd yma, i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, yn "gwbl annigonol yn wyneb yr argyfwng sy'n parhau o ran darpariaeth."

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**
O Blaid 25; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Gwelliant 2**
O Blaid 25; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Gwelliant 3**
O Blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 54
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Gwelliant 4**
O Blaid 9; Ymatal 0; Yn erbyn 47; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Gwelliant 5**
O Blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Gwelliant 6**
O Blaid 56; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 56
**Derbyniwyd y Gwelliant**

**Gwelliant 7**
O Blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

O Blaid 56; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 56
**Derbyniwyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

......................................

## 4.00pm

**Dadl am y Strategaeth Drafnidiaeth**

**NDM2289 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu gwaith Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu polisi drafnidiaeth integredig a chynaliadwy, a fydd yn cefnogi datblygiadau economaidd a chymdeithasol ac yn helpu pob rhan o Gymru i ffynnu.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**1. David Melding (Canol De Cymru)**

Dileu 'croesawu' a rhoi 'nodi' yn ei le.

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu "Yn croesawu gwaith Llywodraeth" ac ychwanegu "Yn gresynu at ddiffyg cynnydd parhaus Llywodraeth Lafur"

**3. David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn cydnabod methiant Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddiwallu anghenion Cymru o ran trafnidiaeth yn gyffredinol ac yn benodol i ymrwymo i ffordd fynediad effeithlon i'r maes awyr a chysylltiadau ffordd o'r gogledd i'r de.'

**4. David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn mynegi pryder am y gost o ddarparu Gwasanaethau Awyr Rheolaidd oddi mewn i Gymru'.

**5. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw'r Mesur Rheilffyrdd yn dirprwyo'r un awdurdod i'r Cynulliad Cymru ag y mae i Senedd yr Alban.

Gellir gweld y Mesur Rheilffyrdd drwy ddefnyddio'r cyswllt canlynol:

**6. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu nad yw polisi trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi pwyslais digonol ar wella trafnidiaeth gyhoeddus.

**7. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn cydnabod pa mor araf yw'r gwasanaethau rheilffordd rhwng Gogledd a De Cymru ac yn herio'r Gweinidog Trafnidiaeth i deithio o Gaerdydd i Fangor ar dren mewn llai na 3 awr cyn diwedd 2005"

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O Blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Gwelliant 2**
O Blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Gwelliant 3**
O Blaid 12; Ymatal 9; Yn erbyn 35; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Gwelliant 4**
O Blaid 11; Ymatal 10; Yn erbyn 35; Cyfanswm 56

**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Gwelliant 5**
O Blaid 16; Ymatal 11; Yn erbyn 29; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Gwelliant 6**
O Blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Gwelliant 7**
O Blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Y cynnig,**
O Blaid 38; Ymatal 0;Yn erbyn 18; Cyfanswm 56
**Derbyniwyd y cynnig**

**......................................**

**5.04pm**

**Y ddadl fer - NDM2287 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru): Problem Yfed y Brifddinas**

**......................................**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.29pm**

**......................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 22 Chwefror 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**Dogfennau a Osodwyd ar 08 Chwefror 2005**

- ☐ Report by the Health and Social Services Committee on The National Health Service (Pharmaceutical Services) (Amendment) (Wales) Regulations 2005 considered by the Committee on 2 February 2005 - LD3469
- ☐ Report by the Health and Social Services Committee on The Carers (Equal Opportunities) Act 2004 (Commencement) (Wales) Order 2005 considered by the Committee on 2 February 2005 - LD3470

**Adroddiadau Pwyllgor a Osodwyd ar 08 Chwefror 2004**

- ☐ LC1008 - Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 - LD3461
- ☐ LC1015 - Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2005 - LD3462
- ☐ LC1016 - Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2005 - LD3463
- ☐ LC1017 - Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 21) 2005 - LD3464
- ☐ LC1018 - Rheoliadau Salmonela mewn Heidiau Dodwy (Pwerau Arolygu) (Cymru) 2005 - LD3465
- ☐ LC1019 - Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) (Diwygio) (Cymru) 2005 - LD3466
- ☐ LC1020 - Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) (Diwygio) 2005 - LD3467
- ☐ LC1021 - Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau ayb.) (Cymru) (Diwygio) 2005 - LD3468